COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD 2, NEUADD Y DREF, WRECSAM AR DYDD IAU, 7 MAWRTH 2019

AELODAU

Mr Michael Pugh, Cadeirydd
Mr Neil Benson, Is-Gadeirydd

Ms Julie Adams
* Mrs Claire Blanchard
Mrs Sandra Hunt
Mr Geoff Edwards - Cynghorydd Cymuned

* Y Cynghorydd Andrew Atkinson
Y Cynghorydd I David Bithell, MBE
* Y Cynghorydd Kevin Hughes

*Yn absennol

22 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar ran y Cynghorydd Andrew Atkinson.

23 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD - Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2018 fel cofnod cywir.

24 ADOLYGIAD O'R COD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU A'R WEITHDREFN ADRODD GYFRINACHOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (HCCS/16/19) yn gofyn i Aelodau adolygu'r Cod Ymarfer i Aelodau a'r Weithdrefn Adrodd yn Gyfrinachol

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro yr adroddiad a dywedodd bod hwn yn adolygiad o'r weithdrefn a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2016 i roi mwy o eglurder i aelodau ynglŷn â chodi pryderon a chwynion am wasanaethau ac / neu swyddogion y Cyngor.

PENDERFYNWYD – Nodi'r adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn adolygu'r Weithdrefn Adrodd yn Gyfrinachol ar gyfer Aelodau a fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2016.

25 RECRIWTIO AELODAU ANNIBYNNOL

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad (HCCS/15/19) er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y broses ar gyfer recriwtio aelod annibynnol newydd ar y Pwyllgor Safonau.

Nodwyd y byddai'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod gyflawni hyfforddiant cyfweliad cyn eistedd ar Banel Dewis. Cytunwyd trefnu sesiwn hyfforddi ar unwaith, i'w gynnal cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor, am 1.00pm ar 6 Mehefin, ac y byddai holl Aelodau'r Pwyllgor yn cael ei wahodd iddo.

Nodwyd y byddai hysbysebu yn digwydd fis Mehefin, gyda chyfweliadau ym mis Gorffennaf, er mwyn gallu cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Cyngor mis Medi yn argymell aelod newydd ar gyfer y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD -

(i) Nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r broses recriwtio a awgrymwyd

(ii) Bod aelodaeth benodol y Paned Dewis ar gyfer y broses recriwtio bresennol yn cynnwys y canlynol:

Mr Graham Binnie, Aelod Panel Lleyg
Y Cynghorydd Cymuned Geoff Edwards
Aelod Annibynnol, Ms Julie Adams
Aelod Annibynnol, Mrs Sandra Hunt
Cynghorydd I David Bithell, MBE

Rheswm dros y penderfyniad

Sicrhau bod y Pwyllgor Safonau yn cael ei sefydlu yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

26 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYFR ACHOSION Y COD YMDDYGIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (HCCS/13/19) i alluogi'r Aelodau i ystyried penderfyniadau diweddar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd yn y Llyfr Achos Cod Ymddygiad.

Tynnodd y Dirprwy Swyddog Monitro sylw Aelodau at achos yn ymwneud â Cyngor Cymuned Llai lle yr honnwyd bod aelod wedi bod yn amharchus ac y datgelwyd gwybodaeth gyfrinachol. Daeth yr Ombwdsman i ganlyniad bod yr aelod wedi datgelu gwybodaeth yn ystod y cyfarfod ond nad oedd y wybodaeth yn gyfrinachol. Roedd yn bryderus am y sylwadau a wnaed ac yn teimlo nad oeddynt yn addas nac yn angenrheidiol.

Cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro at ail achos lle'r oedd Cynghorydd wedi bod yn arbennig sarhaus. Tra nad oedd y Cynghorydd yn credu eu bod wedi ymddwyn yn anghywir, roedd yr Ombwdsman yn bryderus ynglŷn â sut y bu iddo ymddwyn.

Awgrymwyd bod y dylid amlygu penderfyniadau llyfr achos diweddar er mwyn rhoi gwybod i Gynghorwyr. Nodwyd hefyd y byddai penderfyniad llyfr achos yn cael eu cynnwys fel rhan o'r hyfforddiant Cod Ymarfer a ddarperir gan y Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD – Nodi'r penderfyniadau a gofnodwyd yn y Llyfr Achos Cod Ymddygiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mr Michael Pugh
Cadeirydd